

## Biodiversity Action Reporting System (BARS)

The UK BARS partnership (Defra, Natural England, Northern Ireland Environment Agency, Scottish Natural Heritage, Wales Biodiversity Partnership, and Joint Nature Conservation Committee) has taken the difficult decision to discontinue support for [BARS](#). Uptake of the system has been limited and it has failed to present a comprehensive picture of biodiversity action across the UK.

BARS will close at the end of November 2016 to allow sufficient time to safeguard all the data on the system and pursue alternative reporting mechanisms for key partners.

BARS was originally created to support the UK Biodiversity Action Plan (UKBAP) and allowed organisations, companies and partnerships to manage and share their own Biodiversity Action Plans. The UKBAP closed in 2011 and the current version of BARS was launched in April 2012 to collate biodiversity actions in a standardised form and capture geographic locations – enabling spatial analysis and reporting of activity.

The Biodiversity Action Plans and the need to report action data are no longer in place in England and Scotland. Significant data has often come from where it has been a condition of grant funded activity. Collating information on habitat outcomes, tracking progress and informing local delivery and decision-making are likely to remain critical for all countries. Alternative techniques and systems are being pursued – please see country specific Q&As for more information.

### Timescale

BARS will remain open and functional until 30 November 2016, allowing organisations and users to generate final report outputs. After this time the system will be taken offline and will no longer be accessible.

### Data Repatriation

All data supplied to BARS will be archived securely by JNCC. In addition, all organisations will be offered an extract of their own action and project data (including spatial locations) to download and reuse in their own systems. Organisation Administrators will be contacted directly with a download link. These organisational data downloads will be available online from JNCC until the end of the financial year (March 2017).

### Country contacts

Further country specific information on the closure of BARS and contact information is provided below:

Country	Contact	email
England	Joanne Keegan	<a href="mailto:Joanne.Keegan@naturalengland.org.uk">Joanne.Keegan@naturalengland.org.uk</a>
Northern Ireland	Aoibhinn Corrigan	<a href="mailto:Aoibhinn.Corrigan@daera-ni.gov.uk">Aoibhinn.Corrigan@daera-ni.gov.uk</a>
Scotland	Debbie Bassett	<a href="mailto:Debbie.Bassett@snh.gov.uk">Debbie.Bassett@snh.gov.uk</a>
Wales	Holly York	<a href="mailto:hyork@wtwales.org">hyork@wtwales.org</a>

## System Cofnodi Gweithredu Bioamrywiaeth (BARS)

Mae partneriaeth BARS y DU (Defra, Natural England, Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon, Scottish Natural Heritage, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC)) wedi gwneud penderfyniad anodd i roi'r gorau i gefnogi BARS. Mae'r defnydd o'r system wedi bod yn gyfyngedig ac mae wedi methu cyflwyno darlun cynhwysfawr o weithredu er lles bioamrywiaeth ledled y DU.

Daw BARS i ben ddiwedd mis Tachwedd 2016 i roi digon o amser i ddiogelu'r holl ddata ar y system ac i ganfod cyfryngau cofnodi eraill ar gyfer y partneriaid allweddol.

Crëwyd BARS yn wreiddiol i gefnogi Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU (UKBAP) ac roedd yn galluogi i sefydliadau, cwmnïau a phartneriaethau reoli a rhannu eu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth eu hunain. Caeodd UKBAP yn 2011 a lansiwyd y fersiwn presennol o BARS ym mis Ebrill 2012 i gasglu camau gweithredu ers lles bioamrywiaeth ar ffurf safonol ac i gasglu lleoliadau daearyddol - gan alluogi dadansoddiadau gofodol ac adrodd yn ôl ar weithgarwch.

Nid yw Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth a'r angen am gofnodi data gweithredu yn eu lle bellach yn Lloegr a'r Alban. Mae data arwyddocaol wedi dod pan mae wedi bod yn amod ar weithgarwch a gyllidir gan grant. Mae casglu gwybodaeth am ganlyniadau cynefinoedd, cofnodi cynnydd a chyflwyno gwybodaeth yn sail i gyflawni a phenderfyniadau lleol yn debygol o barhau'n allweddol i'r gwledydd i gyd. Rydym yn chwilio am dechnegau a systemau eraill - edrychwch ar y cwestiynau a'r atebion penodol i'r gwahanol wledydd am fwy o wybodaeth.

## Amserlen

Bydd BARS yn parhau ar agor ac yn dal i weithredu tan 30 Tachwedd 2016, gan roi cyfle i sefydliadau a defnyddwyr gynhyrchu allbynnau adrodd terfynol. Ar ôl y dyddiad yma, bydd y system yn cael ei thynnu oddi ar-lein ac ni fydd ar gael mwyach.

## Dychwelyd Data

Bydd yr holl ddata sydd wedi'i gyflwyno i BARS yn cael ei archifo'n ddiogel gan y JNCC. Hefyd, bydd yr holl sefydliadau'n cael cynnig darn o'u data gweithredu a phrosiect eu hunain (gan gynnwys lleoliadau gofodol) i'w lawrlwytho a'i aildefnyddio yn eu systemau eu hunain. Cysylltir â Gweinyddwyr Sefydliadau yn uniongyrchol gyda dolen lawrlwytho. Bydd y lawrlwythiadau data sefydliadol yma ar gael ar-lein gan y JNCC tan ddiwedd y flwyddyn ariannol (Mawrth 2017).

## Cysylltiadau'r gwahanol wledydd

Mae rhagor o wybodaeth sy'n benodol i'r gwledydd, am gau BARS, a gwybodaeth gyswllt, ar gael isod:

Gwlad	Cyswllt	e-bost
Lloegr	Joanne Keegan	<a href="mailto:Joanne.Keegan@naturalengland.org.uk">Joanne.Keegan@naturalengland.org.uk</a>
Gogledd Iwerddon	Aoibhinn Corrigan	<a href="mailto:Aoibhinn.Corrigan@daera-ni.gov.uk">Aoibhinn.Corrigan@daera-ni.gov.uk</a>
Yr Alban	Debbie Bassett	<a href="mailto:Debbie.Bassett@snh.gov.uk">Debbie.Bassett@snh.gov.uk</a>
Cymru	Holly York	<a href="mailto:hyork@wtwales.org">hyork@wtwales.org</a>